Cocsidiosis mewn Defaid

Mae Cocsidiosis yn glefyd sy'n ymledu'n gyflym ac yn achosi sgwrio os yw ŵyn ifainc yn dioddef yn wael.

Mae'n fath o heintiad sy'n digwydd pan fo oocystau (wyau) y parasit yn cael eu hamlyncu.

Mae'r wyau hyn yn deor yn y coluddyn bach. Yn syth ar ôl deor bydd y parasitiaid yn ymledu i gelloedd y coluddyn bach a'r coluddyn mawr. Yn y celloedd hyn byddan nhw'n newid sawl gwaith cyn cyrraedd y cam lle caiff oocystau eu gollwng yn y tail.

Ymhlith y ffactorau risg ar gyfer achosion difrifol mae:

- Hylendid gwael ac ysgarthion yn halogi cadeiriau mamogiaid
- Troi allan drwy'r amser i'r un tir pori sydd wedi ei halogi'n wael o'r blynyddoedd blaenorol neu'r flwyddyn gyfredol os bydd y cyfnod wyna'n hir
- Cadw defaid dan do am gyfnod hir
- Cyfnod ŵyna hir, pan fo halogiad cynyddol yr ŵyn hynaf yn cael ei drosglwyddo i'r ŵyn iau.

Arwyddion Cocsidiosis

- Yr ŵyn heintiedig yn sgwrio. Smotiau o waed a llysnafedd
- Bydd heintiad llai difrifol yn achosi colli cyflwr a gall niweidio'r perfedd gan achosi cyfraddau twf gwael ac ŵyn crebachaidd
- Ŵyn yn dangos arwyddion o straenio a phoen bol
- Mae ŵyn heintiedig yn araf wrth ymateb ac yn ddiegni.

Oen yn dioddef o Cocsidiosis (Llun gan NADIS©)

Ymhlith y camau i reoli Cocsidiosis mae:

- Hylendid da
- Gwasgaru calch hydradol o amgylch cafnau bwyd a dŵr
- Cyfnod wyna byr gyda sawl padog ar gyfer troi allan.
- Peidio â gadael i ŵyn ifainc ddilyn ŵyn hŷn ar dir pori, oherwydd mae'r ŵyn hŷn yn trosglwyddo nifer fawr o oocystau i'r ŵyn iau
- Trin ŵyn cyn gynted ag y gwelwch arwyddion o Cocsidiosis mewn ambell un
- Trafod diagnosis â'ch milfeddyg oherwydd gall yr arwyddion fod yn debyg i Nematodirws.

Triniaeth:

- Mynnwch air â'ch milfeddyg ynglŷn â'r driniaeth a meddyginiaeth sydd ar gael ar gyfer Cocsidiosis.

Ariannwyd y Rhaglen Datblygu Cig Coch gan Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ag arian gan y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.